Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Côd Nofio yn y Gwyllt
Wild Swimming Code

The Wild Swimming Code

Wild Swimming Code

The rivers and lakes of Wales are an amazing place to swim; offering beautiful scenery, crystal clean water and a sense of peace and tranquillity. Help keep them special and preserve them for future generations. Make sure that you:

- **Respect** other people
- **Protect** the natural environment
- **Enjoy** the outdoors and stay safe

Respect other people

- The Countryside Code gives important advice on how to use the countryside responsibly. Visit www.countrysidecodewales.org.uk to read the code. Be aware of it before you go out and follow it at all times.
- Don't trespass. There are areas with designated public access, including rights of way, access land and some waters with navigation rights. However, outside of these areas, you should not assume that you have access onto any land or water without the owner's permission. Find out about places with public and permissive rights of access and egress at Outdoor Wales OnLine in the interactive map section of the Natural Resources Wales website: www.naturalresourceswales.gov.uk
- Be aware that other people may be using the lake or river you're in, such as gorge walkers, canoeists or anglers. Make sure they are aware of your presence but try not to disturb them or get in their way.
- Be discreet if you need to change your clothes in public places.

Protect the natural environment

- Many fish species lay their eggs in gravel in the shallow parts of the river between autumn and spring; they may be very vulnerable at this time and it is an offence to harm them. If possible, try and avoid contact with gravel on the riverbed, at any time of year.
- Avoid damaging plants in and around the water. Stick to established paths or bare rock. If available, use guidebooks, local information or signs to find the best places to get in and out of the water.
- Take care not to alarm birds, livestock or other animals as they may be very sensitive to disturbance; if you see animals looking agitated by your presence move away quietly.
- Be aware that ground-nesting and hole-nesting birds may be breeding on islands, banks and shingle in the spring and summer; be particularly careful not to disturb them at this time.
- Introducing invasive species of plants and animals to watercourses may have very serious effects on the habitats found there. You can prevent this by checking, cleaning and drying your swimwear thoroughly before going to a new place. For more information, visit the Non-Native Species Secretariat (NNSS) pages on DEFRA's website - www.defra.gov.uk

Enjoy the outdoors and stay safe

- You are responsible for your own safety.
- Know your limits, swim with others if possible or let someone know where you are going and when you expect to return.
- Have a way of raising an alarm if you need help.
- Check the weather forecast before you leave home. Remember that water conditions may change while you are out.
- Check the water before you get in:
  - Make sure that there aren't any hidden objects in the water.
  - Make sure that it is deep enough for you not to hit the bottom.
  - Remember that the way you dive in will effect how deep you go.
  - Be aware of fast flowing water and strong currents, particularly around waterfalls and rapids.
- Take care around the water's edge as rocks, grass and mud can be slippery and unstable. Always make sure you know how to get in and out of the water safely.
- Be aware that people may be using boats or other water vessels near you:
  - Stay visible – consider wearing a brightly coloured hat.
  - Make it easy for them to avoid you.

- Take note of warning signs on or around water, particularly around man-made features such as sluices and weirs.
- Have your route planned if you're going to swim long distance:
  - Swimming in an indoor swimming pool is very different from swimming outside - you may not be able to swim the same distance.
  - Make sure you have identified places to get out of the water if you need to.
- The shock of sudden immersion into cold water can sometimes cause hyperventilating and even lead to drowning:
  - Enter cold water slowly and make sure that you have planned a safe way to get out.
- Hypothermia can set in after prolonged periods in cold water:
  - If you feel your arms getting weak, your fingers going numb or muscle cramping then get out of the water as soon as possible.
- Bacteria, viruses, and toxic algae may be present in some water. Generally, if the water looks or smells bad, don't enter. However, if you are entering suspect water:
  - Cover all cuts and abrasions with waterproof plasters.
  - Wear footwear to avoid cutting your feet.
  - Avoid swallowing water.

- Wash as soon possible after getting out and particularly before eating any food.
- Contact your doctor if you start experiencing any symptoms and tell them where you have been.

• The Royal Life Saving Society has more information about water safety and training on its website - www.rlss.org.uk

If you see sewage entering a watercourse call Dŵr Cymru Welsh Water's hotline on 0800 085 3968 or you can also report pollution or other wildlife crime by calling 0800 80 70 60. For non-emergency issues you can contact the police on 101.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Côd Nofio yn y Gwyllt
Wild Swimming Code

Côd Nofio yn y Gwyllt

Côd Nofio yn y Gwyllt

Mae afonydd a llynnoedd Cymru yn lleoedd gwych i nofio ynddyn nhw – mannau y gellir mwynhau golygfeydd godidog, dŵr clir fel grisial ac ymdeimlad o heddwch a llonyddwch. Helpwch i'w cadw'n lleoedd arbennig a'u gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy wneud y canlynol:

- **parchwch** bobl eraill
- **diogelwch** yr amgylchedd naturiol
- **mwynhewch** a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

Parchwch bobl eraill

- Mae'r Côd Cefn Gwlad yn cynnwys cyngor pwysig ynglŷn â'r modd y dylid defnyddio cefn gwlad yn gyfrifol. Ewch i www.countrysidecodewales.org.uk i ddarllen y côd. Cofiwch ymgyfarwyddo ag ef cyn mentro allan, a chofiwch gadw ato bob amser.

- Peidiwch â thresmasu. Mae yna ardaloedd lle mae gan y cyhoedd hawl i fynd arnynt, yn cynnwys llwybrau cyhoeddus, tir mynediad a rhai dyfroedd sydd â hawliau mordwyo. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r ardaloedd hyn peidiwch â chymryd yn ganiataol fod gennych hawl i fynd ar unrhyw dir neu ddŵr heb ganiatâd y perchennog. Gallwch weld pa ardaloedd sydd â hawliau caniataol a hawliau cyhoeddus ar 'Crwydro Cymru ArLein', sef map rhyngweithiol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

- Cofiwch y bydd pobl eraill, o bosibl, yn defnyddio'r llyn neu'r afon, er enghraifft cerddwyr ceunentydd, canŵ-wyr neu bysgotwyr. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod eich bod yno, ond gwnewch eich gorau i beidio â tharfu arnyn nhw na mynd ar eu traws.

- Os byddwch angen newid eich dillad mewn lleoedd cyhoeddus, cofiwch wneud hynny heb dynnu sylw atoch eich hun.

Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Rhwng yr hydref a'r gwanwyn mae llawer o wahanol bysgod yn dodwy eu hwyau mewn graean yn rhannau bas yr afon. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r wyau mewn sefyllfa fregus, ac mae'n drosedd eu niweidio. Os oes modd, peidiwch â chyffwrdd y graean ar wely'r afon – mae hyn yn wir ni waeth pa adeg o'r flwyddyn yw hi.

- Peidiwch â niweidio planhigion yn/o amgylch y dŵr. Cadwch at lwybrau cydnabyddedig neu greigiau noeth. Os oes arweinlyfrau, gwybodaeth leol neu arwyddion i'w cael, defnyddiwch y rhain i ddod o hyd i'r lleoedd gorau i fynd i mewn ac allan o'r dŵr.

- Peidiwch â dychryn adar, da byw nac anifeiliaid o fath arall – efallai y byddant yn dychryn yn hawdd. Os bydd eich presenoldeb yn cynhyrfu'r anifeiliaid, symudwch oddi wrthynt yn dawel.

- Cofiwch y gall adar nythu ar ynysoedd, glannau a graean yn ystod y gwanwyn a'r haf. Byddwch yn ofalus iawn – peidiwch â tharfu arnynt yn ystod y cyfnod hwn.

- Gall cyflwyno mathau goresgynnol o blanhigion ac anifeiliaid i gyrsiau dŵr gael effaith ddifrifol ar y cynefinoedd sydd i'w cael yno. Er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd, ewch ati i wirio, glanhau a sychu eich dillad nofio'n drylwyr cyn mynd i le newydd. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar dudalennau'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron ar wefan DEFRA www.defra.gov.uk.

Mwynhewch yr awyr agored a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

- Chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun.
- Ystyriwch beth sydd o fewn eich gallu, nofiwch gydag eraill os oes modd neu rhowch wybod i rywun i ble rydych yn mynd a phryd y byddwch yn dychwelyd.
- Cofiwch fod â ffordd o gael gafael ar help pe bai angen.
- Cofiwch gadarnhau rhagolygon y tywydd cyn ichi adael eich cartref. Gall amodau'r dŵr newid tra byddwch allan.
- Gwnewch yn siŵr ei bod yn ddiogel ichi fynd i'r dŵr:
  - Gofalwch nad oes gwrthrychau cudd yn y dŵr
  - Gwnewch yn siŵr fod y dŵr yn ddigon dwfn, rhag ofn ichi daro'r gwaelod.
  - Cofiwch y gall y ffordd y byddwch yn deifio effeithio ar ba mor ddwfn yr ewch chi.
  - Byddwch yn ofalus o gerhyntau cryf a dŵr sy'n llifo'n gyflym, yn enwedig o amgylch rhaeadrau a dyfroedd gwyllt.
- Byddwch yn ofalus pan fyddwch ar y lan ar ymyl y dŵr, oherwydd gall creigiau, glaswellt a mwd fod yn llithrig ac ansad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i fynd i mewn ac allan o'r dŵr yn ddiogel.

- Cofiwch y bydd pobl eraill, o bosibl, yn defnyddio cychod neu longau eraill yn y cyffiniau:
  - Gwnewch yn siŵr bod modd i eraill eich gweld – ystyriwch wisgo het lachar.
  - Gwnewch yn siŵr y gallant eich osgoi'n hawdd.
- Cofiwch gymryd sylw o arwyddion rhybudd ar/o amgylch y dŵr, yn enwedig o amgylch nodweddion artiffisial fel llifddorau a choredau.
- Os byddwch yn nofio ymhell cofiwch gynllunio eich taith:
  - Mae nofio mewn pwll nofio dan do yn wahanol iawn i nofio yn yr awyr agored – efallai na fydd modd ichi nofio'r un pellter.
  - Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble y gallwch ddod allan o'r dŵr pe baech angen gwneud hynny.
- Weithiau gall y sioc o fynd i ddŵr oer yn sydyn beri ichi oranadlu neu hyd yn oed foddi:
  - Ewch i mewn i'r dŵr yn araf a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am ffordd ddiogel o fynd allan o'r dŵr.
- Ar ôl cyfnodau maith mewn dŵr oer mae modd i hypothermia ddatblygu:
  - Os teimlwch eich breichiau'n gwanhau, eich bysedd yn mynd yn ddiffrwyth neu gwlwm chwithig yn eich cyhyrau, ewch allan o'r dŵr cyn gynted â phosibl.

- Efallai y bydd bacteria, firysau neu algâu gwenwynig i'w cael mewn ambell le. Os bydd golwg annifyr ar y dŵr, neu os bydd yn drewi, peidiwch â mynd i mewn iddo. Ond os byddwch yn mynd i mewn i ddŵr amheus yr olwg:
  - Gorchuddiwch friwiau a chrafiadau â phlasteri sy'n dal dŵr.
  - Gwisgwch esgidiau i'ch rhwystro rhag cael briwiau ar eich traed.
  - Peidiwch â llyncu'r dŵr.
  - Ar ôl mynd allan o'r dŵr, ymolchwch cyn gynted â phosibl, yn enwedig cyn bwyta.
  - Pe baech yn arddangos unrhyw symptomau, cysylltwch â'ch meddyg a dywedwch wrtho/wrthi ble yn union y buoch.
- I gael mwy o wybodaeth am ddiogelwch ar y dŵr a hyfforddiant perthnasol, ewch i wefan y *Royal Life Saving Society* – www.rlss.org.uk

Os gwelwch garthion mewn cwrs dŵr, ffoniwch linell gymorth Dŵr Cymru/Welsh Water ar 0800 085 3968. Neu ffoniwch 0800 80 70 60 os gwelwch lygredd neu drosedd arall yn ymwneud â bywyd gwyllt. Ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys, ffoniwch yr heddlu ar 101.